**CCJS09 Grŵp Plaid Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Busnes** | **Business Committee**

**Rhannu swydd cadeirydd Pwyllgor** | **Committee chair job sharing**

Ymateb gan: Grŵp Plaid Cymru | Evidence from: Plaid Cymru

Dyddiad | Date: 15 Tachwedd 2024

Parthed: Ymgynghoriad ar rannu rôl cadeiryddion pwyllgor

Ysgrifennaf atoch ar ran Grŵp Plaid Cymru fel Aelod y Pwyllgor Busnes er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad ar rannu rôl cadeiryddion Pwyllgor.

Mae Grŵp Plaid Cymru yn gefnogol o'r egwyddor o rannu swyddi yn y Senedd ers tro, ac felly mi fyddem yn cefnogi gwaith i beilota'r syniad o rannu swydd y rôl cadeirydd, er mwyn gallu ystyried a gweld yn ymarferol sut fyddai'n gweithio rhwng rwan a diwedd y Chweched Senedd – gyda'r gobaith o'i gynnig yn opsiwn ar gyfer y Seithfed Senedd.

Mae'r cysyniad o rannu swyddi yn un yr ydym yn ei gefnogi – yn yr achos hwn er mwyn lleihau rhwystrau i Aelodau sydd yn teimlo nad ydyn nhw'n gallu rhoi eu hunain ymlaen ar sail llawn amser, ac yn fwy cyffredinol er mwyn annog amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth yn unol ag argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio

Etholiadol (argymhellion adroddiad 2017). Byddai'n bwysig gwneud y pwynt nad lleihau llwyth gwaith Aelodau Etholedig fyddai'r bwriad, ond yn hytrach annog hyblygrwydd, ac fe fyddai'n gam ymlaen o ran addasu gweithdrefniau sefydliadol ein Senedd.

O ran ystyried y manteision a'r anfanteision posib, mae tystiolaeth defnyddiol wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor hyd yma fydd yn llywio'r ystyriaethau. Mae pwyntiau dilys a defnyddiol yn cael eu gwneud gan Dr Larissa Peixoto Gomes o Brifysgol Caeredin o ran oblygiadau anfwriadol, ond credwn bod y cynnig craidd sydd gerbron yn ymateb i'r heriau posib ac y dylid eu peilota er mwyn dadansoddi sut fyddai'r syniad yn gweithio'n ymarferol.

Credwn y dylid cyfeirio at y cynnig fel ‘rhannu rôl cadeirydd pwyllgor’ er mwyn amlygu natur y gwaith a’r trefniant i’r cyhoedd.

Fel rhan o’r peilot, credwn y dylai’r sawl sy’n rhannu rôl cadeirydd ond ddim yn cadeirio’r Pwyllgor dal allu mynychu, a gallu eilio ar ran aelod arall o’r Pwyllgor er mwyn treialu a dysgu mwy am sut fyddai hynny’n gweithio, ynghyd â deall unryw oblygiadau anfwriadol i’w hystyried ymhellach, ac rydym o’r farn y dylai’r system o rannu rôl cadeirydd allu cael ei weithredu ar draws holl bwyllgorau’r Senedd ac eithrio rhai sydd â chadeirydd sydd eisoes â rôl dirprwy. Mae gwerth amlygu mai opsiwn fyddai rhannu rôl cadeirydd Pwyllgor, ac nad cynyddu llwyth gwaith Aelodau yn ystod y Chweched Senedd fyddai’r bwriad, ond peilota cynllun i ehangu cyfleon i within mewn dull mwy arloesol.

O ran protocol gweithredu, dylid cymryd pob cam ymarferol er mwyn sicrhau tryloywder a phwrpas rhannu’r rôl rhwng dau Aelod, a dylid gael ei rannu’n gyhoeddus er mwyn ehangu dealltwriaeth a chynnal disgwyliadau yn ystod y cyfnod peilot.

Fel model amgen, byddem â diddordeb mewn ymchwilio i system o ethol dirprwy gadeirydd ar gyfer cadeiryddion Pwyllgor y Seithfed Senedd er mwyn manteisio ar gapasiti ychwanegol a sicrhau bod pob cam yn cael ei gymryd i ganiatau sgrwtini cynhwysfawr.

Edrychwn ymlaen at ddilyn gwaith yr ymgynghoriad.

Yn gywir,



**Heledd Fychan**

Aelod o’r Senedd dros Ganol De Cymru